DAVIES, JOHN CADVAN ('Cadvan'; 1846 - 1923), gweinidog Wesleaidd

Enw: John Cadvan Davies
Ffugenw: Cadvan
Dyddiad geni: 1846
Dyddiad marw: 1923
Rhiant: Jane Davies
Rhiant: David Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Wesleaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Edward Tegla Davies

Ganwyd yn Llangadfan, 1 Hydref 1846, mab David a Jane Davies. Aeth i'r weinidogaeth yn 1871, a gwasanaethodd yn y rhan fwyaf o gylchdeithiau Gogledd Cymru, ac yn Lerpwl. Efe oedd llywydd y gymanfa yn 1910. Yr oedd yn un o olygyddion y *llyfr emynau Wesleaidd*, 1900, ac y mae nifer o'i emynau ynddo ac yn *Llyfr Emynau y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd*, 1927.

Enillodd ar arwrgerddi - 'Madog ab Owain Gwynedd' (eisteddfod genedlaethol Lerpwl, 1884); 'Cystenin Fawr' (Caernarfon, 1886); 'John Penri' (Llundain, 1887); a llu o wobrwyon eraill. Yr oedd yn amlwg ynglyn â'r eisteddfod fel beirniad ac arweinydd, a bu'n archdderwydd, 1923. Yr oedd yn gystadleuydd cyson ac ymladdwr glew pan dybiai iddo golli ar gam, a dwy o'i frwydrau'n enwog - ynglyn â phryddest eisteddfod Dolgellau, Calan Ionor, 1894 (gweler '*Dydd Coroniad*'), a rhieingerdd eisteddfod genedlaethol Lerpwl, 1900.

Cyhoeddodd *Caneuon Cadvan, i* (Rhosymedre, 1878); *Caneuon Cadvan, ii* (Dolgellau, 1883); *Caneuon Cadvan, iii* (Towyn, 1893); *Dydd Coroniad* (Biwmaris, 1894); *Caneuon Cadvan, iv*, a ' Dydd Coroniad ' yn atodiad (Biwmaris, 1897); *Algof a Phrofiad* (hunangofiant) (yn *Eurgrawn* 1917). Bu farw yng Nghroesoswallt, 12 Hydref 1923.

Awdur

Y Parchedig Edward Tegla Davies, (1880 - 1967)

Ffynonellau

'Cadvan (Llywydd Newydd y Gymanfa,' *Y Winllan*, Cyfrol LXIII, Mehefin 1910, tt.141-144

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, Hydref 1912, 1917

Y Geninen, Gorffennaf 1919

Y Geninen (Gwyl Dewi), 1924

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Cadvan Davies

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 63777724

Wikidata: Q6224719

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu